Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau
Adroddiad dan Reol Sefydlog 9.9: Ebrill 2006 hyd Fawrth 2007

Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn un o bum pwyllgor pwnc y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad hwn dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc adrodd ar eu hynt yn cyflawni eu rhaglen waith wrth y Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgareddau'r Pwyllgor o Ebrill 2006 hyd ddiwedd tymor y gwanwyn 2007.

Aelodaeth y Pwyllgor

2. Aelodau'r Pwyllgor ar hyn o bryd yw: Chris Gwyther (Cadeirydd), Leighton Andrews, Alun Cairns, Andrew Davies (Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau), Janet Davies, Alun Ffred Jones, Carl Sargeant a Kirsty Williams

Cylch Gwaith y Pwyllgor

3. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Arloesi a mentergarwch;
- Polisi diwydiannol a chymorth i fusnesau;
- Mewnfuddsoddi, hyrwyddo cwmnïau cynhenid a datblygu rhanbarthol;
- Trafnidiaeth;
- Ynni;
- Twristiaeth;
- Cyfrifoldeb strategol am gydgysylltu TGCh;
- Cronfeydd Strwythurol

Blaenoriaethau'r Pwyllgor

4. Amlinellwyd blaenoriaethau'r Pwyllgor yn ei Flaenraglen Waith a gytunwyd ar 3 Mai 2006.

Cyfarfodydd a gynhaliwyd

5. Cynhaliodd y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau 15 cyfarfod ffurfiol yn 2006-7. Cynhaliwyd y cyfan ond un o'r cyfarfodydd yn gyhoeddus. Ystyriodd y Pwyllgor yr argymhellion ar gyfer yr Adolygiad Polisi Gwyddoniaeth yn breifat.

6. Ym mis Mehefin 2006 cyfarfu'r Pwyllgor yng Ngogledd Cymru i drafod materion cysylltiedig â chymorth busnes a thwristiaeth yn dilyn uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru gydag Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, i greu'r Adran newydd Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Clywodd y Pwyllgor farn Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bychain, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngor Sir y Fflint a Thwristiaeth Gogledd Cymru.

Gwaith a Chyrhaeddiadau

<u>SO 9.7(i)</u> - cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;

7. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar bolisi gwyddoniaeth yng Nghymru ym mis Medi 2006. Fe ddechreuodd ar ei adolygiad ym mis Mawrth 2005 a derbyniodd dystiolaeth gan gyrff addysg uwch, y sector busnes, awdurdodau lleol, a chyrff rhanbarthol, cyrff addysg a chyrff sydd ag ymwybyddiaeth o wyddoniaeth. Penderfynodd y Pwyllgor wneud yr adolygiad oherwydd bod gwariant ar wyddoniaeth yng Nghymru yn llusgo tu ôl i weddill y DU, a thra bo gan Gymru bolisïau datblygedig i hybu arloesi, yr oedd y rhain o ychydig werth os nad oedd sail wyddonol iach yn perthyn iddynt. Gan fod hwn yn fater eang a chymhleth ond yn un o bwysigrwydd mawr i Gymru, fe benododd y Pwyllgor Dr Robin Fears fel cynghorwr arbenigol ar yr adolygiad, a gofynnwyd am gefnogaeth 'Grŵp Cyfeirio' o gynrychiolwyr o nifer bychan o sefydliadau allanol allweddol i gynghori ar y Cylch Gorchwyl a dynodi sefydliadau i roi tystiolaeth lafar. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Awst a Medi 2005. Cyflwynwyd 18 argymhelliad, derbyniwyd 9 a derbyniwyd 4 yn rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

8. Yn dilyn cwblhau'r adolygiad polisi Gwyddoniaeth, fe adolygodd y Pwyllgor y datblygiadau a'r cynnydd a wnaethpwyd i weithredu argymhellion yr adolygiadau polisi blaenorol. Fe wnaethant edrych ar yr adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn 2003, a derbyniodd dystiolaeth gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyfeillion y Ddaear a Dulas Ltd. Hefyd bu i'r Pwyllgor edrych ar y cynnydd a wnaethpwyd i weithredu argymhellion ei adroddiad ar Anweithgarwch Economaidd a gyhoeddwyd yn Ebrill 2005 a gwahodd cynrychiolwyr o'r Ganolfan Byd Gwaith, y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, y Gymdeithas Trafnidiaeth Cymunedol y DU a Chwarae Teg i roi tystiolaeth.

9. Hefyd trafododd y Pwyllgor a rhoi sylwadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar nifer o faterion economaidd sy'n cynnwys: y Map Llwybr Ynni; WAVE: Cymru – Economi yn Ffynnu ac yn benodol agweddau cydraddoldeb y polisi hwn; y Canllawiau ar Gymorth Rhanbarthol, y Strategaeth Blaenau'r Cymoedd, Tuag at e-Gymru, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a chynigion ar gyfer Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cymru Gyfan.

<u>SO 9.7(ii)</u> – parhau i arolygu'r gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu

<u>Craffu rheolaidd ar waith y Gweinidog</u>

10. Mae'r Pwyllgor yn rheolaidd yn craffu ar y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau a'r adroddiad ysgrifenedig mae'n ei ddarparu i'r Pwyllgor yn nodi'r manylion diweddaraf o fewn ei faes cyfrifoldeb. Mae trafodaeth ar yr adroddiadau hyn wedi llunio cyfran helaeth o'r rhan fwyaf o gyfarfodydd.

11. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau dadansoddi rheolaidd ar yr economi ar ffurf yr Adroddiad Economaidd Chwarterol ar gyfer Cymru a'r Bwletin Ystadegol Chwarterol a'r adroddiad hanner blynyddol ar weithrediad y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol.

12. Mae'r drafodaeth ar y gwahanol faterion polisi a gyfeiriwyd atynt dan yr adran uchod mewn cysylltiad â datblygu polisi hefyd yn cynnwys elfen o graffu ac nid oes sôn am y rhain ar wahân yma.

<u>Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd</u>

13. Mae'r Pwyllgor yn parhau i'w hystyried yn flaenoriaeth i sicrhau fod y budd mwyaf yn cael ei gyflawni i Gymru o'r rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae'n cael

trafodaethau rheolaidd am y rhain gyda'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, yn ogystal â derbyn adroddiadau chwarterol rheolaidd gan Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chan Gadeiryddion y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni.

14. Ym mis Mai fe ymatebodd y Pwyllgor i ymgynghoriad yr Adran Masnach a Diwydiant, Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol oedd yn amlinellu'r strategaeth fras ar gyfer Cronfeydd Strwythurol ac oedd yn cynnwys pennod ar Gymru. Ymatebodd y Pwyllgor hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr ymgynghoriad ar y Rhaglenni Cydgyfeirio 2007-2013 a'r Rhaglen Weithredol Ddrafft ar gyfer Rhaglen Cystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth y De Ddwyrain 2007-2013.

<u>SO 9.7(iii)</u> - parhau i arolygu gwaith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat:

15. O ganlyniad i uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru, derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Datblygu ac adroddiad perfformiad y Bwrdd Croeso. Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes llawn cyntaf yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, oedd yn corffori gwaith y cyn Gyrff Cyhoeddus a Noddwyd gan y Cynulliad ynghyd â Thrafnidiaeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r cyn Is adran Polisi Economaidd.

16. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr fe ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad hanner blynyddol yr Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, am y cyfnod 1 Ebrill 2006 hyd 30 Medi 2006.Yr oedd yr adroddiad yn crynhoi perfformiad yr Adran yn ôl rhai cyrhaeddiadau allweddol fel y nodir yn ei Gynllun Busnes ar gyfer 2006-07.

17. Mae'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn datblygu model gweithredu newydd, 'Going Forward'. Fe amlinellodd y Gweinidog y model newydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ar 17 Ionawr. Ceisiodd y Pwyllgor farn gwahanol ddeiliaid diddordeb a thrafodwyd y mater yn eu cyfarfod ar 21 Mawrth.

18. Parhaodd y Pwyllgor i arolygu darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a chyfarfod gyda chynrychiolwyr o First Great Western; yr Adran Drafnidiaeth a Ffocws ar Deithwyr. Fe gyfarfu hwy hefyd â chynrychiolwyr o Network Rail a Threnau Arriva Cymru a thrafod materion yn gysylltiedig â pherfformiad yn ôl y drwydded; yr amserlen ddrafft ar gyfer Rhagfyr 2006 a'r Cynllun Busnes.

<u>S.O. 9.8 – cyfrifoldebau eraill</u>

<u>Deddfwriaeth</u>

19. Mae'r Pwyllgor yn rheolaidd yn derbyn rhestr o is-ddeddfwriaeth arfaethedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o'r hwn y mae'r Aelodau yn nodi unrhyw eitemau maent hwy yn ystyried ddylai gael ei graffu gan y Pwyllgor, ac mae wedi craffu ar nifer o eitemau is-ddeddfwriaeth eleni.

20. Rhoddwyd y Mesur Trafnidiaeth y Ffordd (drafft) yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod llawn ym mis Tachwedd ar araith y Frenhines i'r Senedd. Nid yw'r Mesur wedi'i gyhoeddi eto.

21. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddio ar 16 Mawrth. Cododd yr Aelodau nifer o bryderon, yn arbennig gyda golwg ar ystod pwerau'r Mesur mewn cysylltiad â Deddf Llywodraeth Cymru, a gofynnodd am gyfle i graffu ymhellach. Cafodd y Mesur ei graffu ymhellach ar 3 Mai ac anfonwyd adroddiad i'r Pwyllgor Busnes.

Dosbarthwyd hwn hefyd i'r holl Arglwyddi yng Nghymru, cyn iddo gael ei ystyried gan Dy'r Arglwyddi ym mis Mehefin.

22. Mae'r Pwyllgor wedi treulio amser cynyddol yn ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru o fewn y portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Ym mis Mawrth fe ystyriodd y Pwyllgor y Papur Gwyrdd ar Bolisi Morol yr UE ar gyfer y dyfodol. Hefyd dynododd y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad hwn fel blaenoriaeth felly gwahoddwyd aelodau o'r Pwyllgor hwnnw i'r cyfarfod. Gwahoddodd y Pwyllgor sefydliadau yng Nghymru sydd â diddordeb mewn materion morol i gyflwyno safbwyntiau ysgrifenedig ar y papur gwyrdd ac yn y cyfarfod rhoddwyd tystiolaeth gan Mr John B. Richardson, Pennaeth y Tasglu Polisi Morol, Rheolwr Cyfarwyddiaeth Pysgodfeydd a Materion Morol a chyflwynwyd tystiolaeth gan y Bartneriaeth Arfordirol yng Nghymru. Ar ôl y cyfarfod fe ymatebodd y Pwyllgor i ymgynghoriad y Comisiwn.

23. Yn y cyfarfod hwnnw, fe ystyriodd y Pwyllgor hefyd yr Ohebiaeth ar Dechnoleg Glo Glân, a oedd wedi'i ddynodi ar gyfer craffu pellach gan raglen waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd.

Y Gyllideb Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

24. Mae'r Pwyllgor wedi bod mewn cysylltiad agos â dynodi blaenoriaethau ar gyfer cyllideb datblygu economaidd y Cynulliad bob blwyddyn ac mae wedi rhoi ei sylwadau ar gynigion y Gweinidog o ran y gyllideb yn 2006-07.

Penodiadau Cyhoeddus

25. Chris Gwyther a Janet Davies fu'r Aelodau a enwebwyd i fod yn gyfrifol am benodiadau cyhoeddus.

26. Yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu is-bwyllgor i gynnwys y ddau Aelod a enwebir gan y Pwyllgor i fod yn gyfrifol am benodiadau cyhoeddus, Chris Gwyther a Janet Davies, i gyflawni swyddogaeth penodi Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd. Yn ei gyfarfod ar 18 Mai fe nododd y Pwyllgor benodi Stella Mair Thomas i wasanaethu fel Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd.

27. Hefyd cysylltwyd â'r enwebeion ar dri phenodiad arall yn ystod y cyfnod dan sylw.

Chris Gwyther
Cadeirydd